O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2013 Rhif 195 (Cy. 26)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Penmaen-bach, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013

*Gwnaed* *1 Chwefror 2013*

*Yn dod i rym* *12 Chwefror 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (1984)**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Chwefror 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Penmaen-bach, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnod o ddyddiadau cau fel y pennir yn Atodlen 7, sy'n dechrau am 18:00 o'r gloch ar 12 Chwefror 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion

traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

ystyr "y darn(au) o'r gefnffordd" ("*the length(s) of the* trunk road") yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A55 a bennir yn Atodlenni 1 i 6 i'r Gorchymyn hwn;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 15, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, ac eithrio cerbyd esempt, ar hyd y gerbytffordd tua'r dwyrain na'r gorllewin ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** —(1) Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd gan erthygl 3 rhag symud yn y gerbytffordd tua'r dwyrain ond, yn unol ag erthygl 15, heb eu gwahardd yn y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur er mwyn peri neu ganiatáu iddo:

(a) mynd yn lôn allanol y gerbytffordd tua'r gorllewin i unrhyw gyfeiriad heblaw'r dwyrain;

(b) mynd i unrhyw gyfeiriad, heblaw'r dwyrain, drwy unrhyw un o'r bylchau yn llain ganol y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Tra bo cerbydau wedi eu gwahardd gan erthygl 3 rhag symud yn y gerbytffordd tua'r gorllewin ond, yn unol ag erthygl 15, heb eu gwahardd yn y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur er mwyn peri neu ganiatáu iddo:-

(a) mynd yn lôn allanol y gerbytffordd tua'r dwyrain i unrhyw gyfeiriad heblaw'r gorllewin;

(b) goddiweddyd unrhyw gerbyd modur yn y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn;

(c) mynd i unrhyw gyfeiriad heblaw'r gorllewin drwy unrhyw un o'r bylchau yn llain ganol y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 15, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw

gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 15, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 6 i'r Gorchymyn hwn, i'r graddau y maent yn ymwneud â'r adegau hynny pan fydd y gerbytffordd tua'r gorllewin ar gau yn unol ag erthygl 3.

**7.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 15, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd â'i led yn 3.2 metr neu ragor fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5 i'r Gorchymyn hwn.

**8.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 15, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

**Atal**

**9.** Drwy hyn mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd (yr A55) (Penmaen-bach – Dwygyfylchi, Gwynedd) (Traffig Unffordd) 1990**(3)** wedi eu hatal i'r graddau y maent yn ymwneud â lôn allanol cerbytffordd y darn o'r gefnffordd tua'r gorllewin a bennir yn Atodlen 1 yn ystod yr adegau hynny y bydd y gerbytffordd tua'r dwyrain ar gau yn unol ag erthygl 3 ac â lôn allanol cerbytffordd y darn o'r gefnffordd tua'r dwyrain a bennir yn Atodlen 1 yn ystod yr adegau hynny y bydd y gerbytffordd tua'r gorllewin ar gau yn unol â'r erthygl honno.

**10.** Drwy hyn mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Penmaen-bach, Gwynedd) (Cau Croesfannau'r Llain Ganol) 1994(**4)** wedi eu hatal ar yr adegau hynny y bydd y gwaharddiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

**11.** Drwy hyn mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Penmaen-mawr –Conwy Morfa, Conwy) (Dileu Cyfyngiadau) 2004**(5)** wedi eu hatal mewn cysylltiad â'r darnau o'r gefnffordd a bennir ym mharagraffau 1, 2 a 3 o Atodlen 4 yn ystod yr adegau hynny y bydd y cyfyngiadau a bennir yn erthygl 5 yn weithredol.

**12.** Drwy hyn mae darpariaethau Rheoliadau Gorchymyn Ffordd Arbennig (Llansanffraid Glan Conwy i Forfa Conwy) 1990**(6)** wedi eu hatal mewn cysylltiad â'r darnau o'r gefnffordd a bennir ym mharagraffau 1 a 3 o Atodlen 4 yn ystod yr adegau

hynny y mae'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 5 yn weithredol.

**13.** Drwy hyn mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Penmaen-mawr, Gwynedd) (Codi Cyfyngiad) 1989**(7)** wedi eu hatal mewn cysylltiad â'r darn o'r gefnffordd a bennir ym mharagraff 2 o Atodlen 4 yn ystod yr adegau hynny y mae'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 5 yn weithredol.

**14.** Drwy hyn ddarpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Glanconwy – Morfa Conwy, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn Cyflymder 70 mya Dros Dro) 2011(**8**) wedi eu hatal mewn cysylltiad â'r darnau o gefnffordd a bennir ym mharagraffau 1 a 3 o Atodlen 4 yn ystod yr adegau hynny y mae'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 5 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**15.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7 ac 8 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**16.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 1 Chwefror 2013

*R Morgan*
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 1990/328
**(4)** O.S. 1994/3088
**(5)** O.S. 2004/2876
**(6)** O.S. 1990/1586
**(7)** O.S. 1989/1958
**(8)** O.S. 2011/2330 (Cy.245)

## YR ATODLENNI

Darnau o Gefnffordd ym Mhenmaen-bach ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

### ATODLEN 1
### Terfynau'r gwrthlif

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 320 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Penmaen-bach tua'r Gorllewin hyd at bwynt 130 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol y twnnel hwnnw.

### ATODLEN 2
### Terfynau'r cyfyngiadau o ran peidio â goddiweddyd

Y darn hwnnw o'r gerbytffordd (y pentir) tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 320 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Penmaen-bach tua'r Gorllewin hyd at bwynt 130 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol y twnnel hwnnw.

### ATODLEN 3
### Terfynau'r bylchau yn y llain ganol

1. Y bwlch yn y llain ganol sydd rhwng pwynt 130 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twnnel Penmaen-bach tua'r Gorllewin a phwynt 65 o fetrau i'r dwyrain o'r porth hwnnw.

2. Y bwlch yn y llain ganol sydd rhwng pwynt 210 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Penmaen-bach tua'r Gorllewin a phwynt 320 o fetrau i'r gorllewin o'r porth hwnnw.

### ATODLEN 4
### Gwahardd pob cerbyd yn ystod y cyfnod cau a therfyn cyflymder o 40 mya

1. Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o'r llain ganol wrth bwynt 50 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Conwy hyd at ganolbwynt Cyffordd 16, Cylchfan y Puffin, gan gynnwys y ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 17, Morfa Conwy a'r bwlch yn y llain ganol fel y'i diffinnir ym mharagraff 2 o Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

2. Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Traphont y Red Gables i'r llain ganol wrth bwynt 191 o fetrau i'r

gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Pentir Penmaen-bach tua'r Dwyrain, gan gynnwys y bwlch yn y llain ganol fel y'i diffinnir ym mharagraff 2 o Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

3. Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o'r llain ganol wrth bwynt 787 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twnnel Pentir Penmaen-bach tua'r Dwyrain hyd at bwynt 50 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Conwy, gan gynnwys y ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 17, Morfa Conwy.

## ATODLEN 5
## Cyfyngiadau ar led cerbydau

1. Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 30 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16, Cylchfan y Puffin, hyd at ben pellaf y trwyniad lle y mae'r ffordd ymuno tua'r dwyrain yn ymuno â phrif gerbytffordd yr A55 wrth Gyffordd 18, Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno.

2. Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o ddechrau'r trwyniad lle y mae'r ffordd ymadael tua'r gorllewin yn ymrannu oddi wrth brif gerbytffordd yr A55 wrth Gyffordd 18, Cyfnewidfa Cyffordd Llandudno hyd at bwynt 30 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 16, Cylchfan y Puffin, gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 18.

## ATODLEN 6
## Ymestyn y Cyfyngiad Cyflymder 30mya ar y Pentir

Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r gorllewin a'r bwlch yn y llain ganol sy'n ymestyn o bwynt 130 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twnnel Penmaen-bach tua'r Gorllewin hyd at bwynt 65 o fetrau i'r dwyrain o'r porth hwnnw.

## ATODLEN 7

## Dyddiadau

18:00 12 Chwefror 2013 – 07:30 13 Chwefror 2013
18:00 13 Chwefror 2013 – 07:30 14 Chwefror 2013
18:00 14 Mai 2013 – 07:30 16 Mai 2013
18:00 16 Gorffennaf 2013 – 07:30 17 Gorffennaf 2013
18:00 17 Gorffennaf 2013 – 07:30 18 Gorffennaf 2013
18:00 15 Hydref 2013 – 07:30 17 Hydref 2013